



Eich cyf/Your ref: P-05-1058
Ein cyf/Our ref: FM -/01699/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

petitions@senedd.cymru

16 Tachwedd 2020

Annwyl Gadeirydd,

Ysgrifennaf i ymateb i'ch llythyr dyddiedig 20 Hydref am ddeiseb ynglŷn ag ail gyfnod o gyfyngiadau symud cenedlaethol.

Fel y gwyddoch, yma yng Nghymru rydym newydd ddod i ddiwedd cyfnod atal byr o 17 o ddiwrnodau, a ddechreuodd ar 23 Hydref ac a ddaeth i ben ar 9 Tachwedd.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y cyfnod atal byr hwn yn seiliedig ar y cyngor clir a gafwyd gan ein cyngorwyr gwyddonol a meddygol. Mae'r cyngor gwyddonol a oedd yn sail i'n penderfyniad wedi ei egluro yn yr adroddiad gan y Gell Cyngor Technegol, sydd wedi ei gyhoeddi yn: <https://llyw.cymru/grwp-cyngor-technegol-cyfnod-atal-byr>

Mae'r coronafeirws wedi bod yn lledaenu'n gyflym drwy Gymru, ac mae'n bresennol ym mhob rhan o'r wlad. Nod y cyfnod atal byr llym hwn oedd helpu i ddod â'r feirws yn ôl dan reolaeth. Pe na baem wedi gweithredu, roedd perygl real iawn y byddai'r GIG wedi cael ei lethu ac y byddai hyd yn oed mwy o bobl yn colli eu bywydau o ganlyniad.

Daeth set newydd o fesurau cenedlaethol i rym o 9 Tachwedd, gan ddisodli cyfyngiadau llym iawn y cyfnod atal byr a'r cyfyngiadau lleol a oedd ar waith mewn llawer man yng Nghymru cyn 23 Hydref. Bydd y trefniadau hyn yn cael eu hadolygu ymhén dwy wythnos.

Ni fyddwn yn gwybod i ba raddau y bu'n cyfnod atal byr yn llwyddiannus am rai wythnosau oherwydd yr amser y mae'n ei gymryd i symptomau ymddangos. Fodd bynnag, ni fydd y coronafeirws yn diflannu ar ôl y cyfnod atal byr – bydd yn dal gyda ni, ac os ydym am

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gadw'r feirws o dan reolaeth, mae angen inni i gyd feddwl am ein bywydau ein hunain a sut y gallwn gadw ein teuluoedd yn ddiogel. Mae angen inni roi'r gorau i feddwl yn nhermau beth yw terfyn eithaf y rheolau a'r rheoliadau.

Mae'r coronafeirws yn eithriadol o heintus – mae'n ffynnu mewn sefyllfaoedd lle mae pobl yn dod i gysylltiad â'i gilydd. Er mwyn cadw ein gilydd yn ddiogel, mae angen inni leihau nifer y bobl yr ydym yn dod i gysylltiad â nhw, a'r amser yr ydym yn ei dreulio yn eu cwmni.

Nod y mesurau cenedlaethol newydd yw sicrhau y byddwn yn gallu cael y budd gorau a'r effaith fwyaf o weithredu cyfnod atal byr, ond ni allwn fynd yn ôl at sut yr oeddem yn byw o'r blaen gan daflu'r holl waith caled a gyflawnwyd i ffwrdd. Mae gan bob un ohonom rôl barhaus yn yr ymdrechion i gadw Cymru yn ddiogel.

Dymuniadau gorau,

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

MARK DRAKEFORD